

Rhifyn  
cyntaf pdf  
yn unig.

# Wilia Bach

RHIF 424 EBRILL 2020  
AM DDIM!

PAPUR MISOL CYMRAEG  
ABERTAWE

**Ar ffurf PDF. yn unig y bydd WILIA tra bydd yr ysgolion a'r cymdeithasau sy'n ei ddosbarthu fel arfer wedi gorfod cau eu drysau.**

## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS

Er i ni edrych ymlaen at ymweliad Bev Lennon ym mis Mawrth, oherwydd y newyddion am haint y Coronafeirws bu raid hepgor y noson ac ad-drefnu'r digwyddiad ar gyfer nos Iau Hydref 1af. Ni fyddwn yn cwrrd ym mis Ebrill chwaith. Gan nad oes sicrwydd pryd daw'r cyfnod yr haint i ben dylid cysylltu â'r Cadeirydd, David Gwyn John (01792 773507) am fanylion parthed y cyfarfodydd o fis Mai ymlaen.



## LLONGYFARCHIADAU I HELEDD!


Ynghanol holl firi'r feirws, rhywbeth i'w ddathlu i un o gyfeillion Tŷ Tawe, llongyfarchiadau fil i Heledd Owen ar ennill Cadair Eisteddfod Rhyngolegol 2020! Tipyn o gamp yn ei blwyddyn gynta' ym Mhrifysgol Aberystwyth. Llundun: y BBC

## DIWEDDARIAD FIRWS CORONA

### Tŷ TAWE

Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran sesiynau Tŷ Tawe:

- Dim dosbarthiadau Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe o gwbl tan rybudd pellach, na Noson Ffrindiaith ar nos Wener gyntaf y mis;
- Ymarferion Côr Tŷ Tawe wedi'u gohirio tan ar ôl y Pasg;
- Bydd sesiwn CYD yn stopio tan rybudd pellach;
- Fydd dim Siop Siarad fore dydd Sadwrn tan rybudd pellach;
- Tyrfe Tawe— dim penderfyniad eto am weddill y flwyddyn hyd yn hyn;
- Dim lansiad llyfr Alan Llwyd "Dwylo Coch"
- Dim Clwb Darllen ar ail nos Lun y mis tan rybudd pellach;
- Dim gwybodaeth hyd yn hyn am wasanaeth Capel Gomer ddydd Sul;



Daeth tyfa dda o gennin Pedr i'r amlwg ym Mharc Singleton erbyn Dydd Gŵyl Dewi eleni, diolch i waith caled Merched y Wawr y llynedd. Rhoddodd y Merched lu o fylbiau o gwmpas y dderwen a blannwyd yn 2010 i ddathlu 40fed pen-blwydd sefydlu'r mudiad.



Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus Bryn Tawe am ennill eu lle ar raglen "Y Ddadl Fawr" ar Radio Cymru. Cyflwynydd y rhaglen yw Garry Owen. Cystadluodd yr ysgol yn erbyn Ysgol y Preseli a'r beirniaid oedd Sian Lloyd, Dr Elin Jones a Gwyn Williams. Cyhoeddwyd ar ddiwedd y rhaglen mai Bryn Tawe oedd yn fuddugol ac felly'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Da iawn Caitlyn, Steffan a Nansi!

## Busnes y Mis – Helo Blod GOWER SEAFOOD HUT

Mae 'Gower Seafood Hut' wedi cydweithio â phrosiect Cymraeg Byd Busnes bellach ers tair blynedd. Maen nhw wedi sicrhau bod bwydlen ddwyieithog gyda nhw bob blwyddyn.

Yn ôl y perchennog, mae cael y fwydlen yn Gymraeg wedi bod yn wych, ac yn bwnc trafod ymhlith y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg. "Mae rhai'n diolch i ni am yr ymdrech, ac eraill yn gwirio am wallau – a llawer yn dweud nad ydyn nhw'n dod o hyd i unrhyw wall. Fel hyn dwi'n gweld pethau: os dych chi yn yr Eidal, mae'r fwydlen yn Eidaleg. Dwi ddim yn siŵr pam nad oes mwy o hyn yng Nghymru. Mae'n gaffaeliad hyfryd i'n busnes bach ni; dyw e ddim yn ymdrech o



gwbl heblaw am ysgrifennu'r byrddau. Yn fwy na dim, mae'n gwneud i bobl wenu."

Felly beth am gefnogi busnesau bach sydd yn mynd i'r ymdrech i ddefnyddio a chefnogi'r iaith? Galwch lawr i weld Sarah a Chris yn 'Gower Seafood Hut' lawr ar bwys y parc yn Mwmbwls, The Antelope Slip,

Southend. Maen nhw ar agor 12:00-18:00, 7 diwrnod yr wythnos. Os ydych chi yn rhedeg neu yn gweithio i fusnes bach neu ganolig ac a diddordeb i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ond angen help a chefnogaeth ar sut i wneud hynny, cysylltwch ag eich Menter Iaith Leol. **Llinos Haf**

## Pwyth gan Haf Llewelyn – Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe Marciau: yn amrywio hyd at 7.5

"Sylwadau da am fywyd a golygfeydd trawiadol."

"Braidd yn araf oedd y stori, ond cyflymmodd tua'r diwedd."

"Yn hoffi'r ffordd mae'r awdur yn esbonio pethau – yn awgrymu, nid dweud. Roedd hi fel petai'n cynnig diferion i ni nawr ac yn y man."

"Ro'n i heb ddeall y llyfr – bu'n rhaid ailddarllen."

"Mae'r awdur yn gallu creu awyrgylch yn effeithiol."

"Yn hoffi'r ffordd roedd hi'n ymdrin â'r plant – roedd hi'n deall disgyblion ysgol i'r dim."

"Doedd hi ddim yn amlwg pam dewiswyd y teitl."

"Heb ddeall ambell elfen o'r plot ar y

diwedd."

"Cyflwynodd yr awdur ormod o gymeriadau ar y dechrau."

"Roedd defnyddio enw lleoliad i gyflwyno pob pennawd o gymorth."

"Wedi darlunio dementia yn dda."

"Mae angen darllen yn araf er mwyn gwerthfawrogi'r ysgrifennu'n llawn."

"Mae'r awdur yn datblygu sawl perthynas yn dda iawn, e.e. Heulwen a Jan, ac mae'r portread o berthynas hoffus y tad-cu a'i ŵyr yn effeithiol hefyd."

Byddwn yn cael cyfarfod ar ap cyfarfodydd **Zoom** y tro nesaf i drafod *Treheli* gan Mared Lewis (Y Lolfa, £8.99). Os ydych chi eisiau ymuno â ni, cysylltwch ag [elin.angharad.meek@gmail.com](mailto:elin.angharad.meek@gmail.com)

## WILIA YN SIOP BALANCE

Pan ddaw pethau i drefn eto, da dweud bod siop **Balance**, 63 Eversley



Road, Sgeti wedi cytuno i werthu *Wilia* ar ôl i'r gymuned golli ei swyddfa bost yn ddiweddar. Mae **Balance** yn prysur ennill bri fel y lle i brynu ystod o fwydydd a nwyddau cartref sy'n garedig i'r blaned. Mae manylion ar dudalen Facebook y siop, gan gynnwys ei horiau agor sy'n amrywio.

## Cymdeithas Ceredigion a Thŷ'r Cymry



Cawsom lawer o bleser yn ein cyfarfod mis Mawrth pan ddaeth **côr merched Ysgol Bryntawe** i'n diddanu dan arweinyddiaeth Alun Williams. Pob un yn smart iawn yn ei gwisg du a gwyn, hyd yn oed Mr Williams! Mae rhywbeth arbennig am gynnyrch ein hysgolion Cymraeg. Bob blwyddyn yr ydym yn gweld plant ifanc yn sefyll o'n blaenau yn chwarae offerynnau, yn adrodd neu yn canu a hynny efo hyder tawel. Mae'n codi calon i sylweddoli bod to ifanc yn datblygu ac yn gwerthfawrogi ein hiaith. Mae dyfodol i'n hiaith!

Mae'r ysgol yn ardal Gwyrosydd a'r flwyddyn yma mi ydan ni'n dathlu canmlwyddiant ei farwolaeth ar y 11eg o Fawrth 1920. Yn naturiol roedd rhaid i ni eu clywed yn canu Calon Lan. Profiad gwych oedd eistedd yn ôl a gwrandao ar eu lleisiau hyfryd yn canu'n berffaith. Dw i'n siŵr nad dim ond fi wnaeth deimlo ias yn dringo fy asgwrn cefn. Perffaith! Hyfryd, hyfryd ac, unwaith eto, hyfryd! Mawr ddiolch i'r merched ac i Alun Williams am sioe ardderchog.

Dyna oedd ein cyfarfod olaf am y flwyddyn, diolch i'r Coronavirus. Mae'n rhaid i ni gyd fod yn amyneddgar a gofalus. Cadwch yn iach.

Rob Evans

## Wilia Bach

yng ngofal Elin Meek

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.  
Daliwch i anfon, bydd rhifyn eto'n fuan:  
beth am anfon eich atgofion, sut rydych chi'n ymdopi â hunanynysu ac unrhyw beth arall o ddiddordeb?  
[wilia@hotmail.co.uk](mailto:wilia@hotmail.co.uk)



Ariennir yn Rhannol gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Part Funded by  
**Welsh Government**



Wel, roedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i'w dweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml doth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant lle maen nhw'n bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto fod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn

gwylu pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, y han fwyaf i'w taflu a dwsin i'w cadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech gyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael e allforio i lwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.

Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera, Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld a ydan ni'n cerdded yn eich ardal yr wythnos yma. Bydd croeso mawr i chi!  
Rob Evans

## Nodyn o'r gorffennol

Roedd gan Abertawe gylchgrawn Cymraeg misol yn yr 1940au. O.M. Lloyd, Cilfwnwr, Mynyddbach, oedd golygydd Y Llanw. Yn rhifyn Medi, 1949, mae adroddiad am ddechrau Ysgol Gymraeg Lôn-las

--

## Yr Ysgol Gymraeg

Medi 5. Bydd hwn yn ddydd i'w gofio yn hanes Abertawe, gan mai ar y diwrnod hwn yr agorir yr Ysgol Gymraeg yn Lonlas. Enw awgrymog ar ran o'r ardal yw Llwyn-Brwydrau, a dyma'r Cymry yn cael buddugoliaeth ym myd addysg. Chwedl Silyn "mae Arthur wedi deffro."

Nos Lun, Gorffennaf 25, trefnodd y Maer gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref, a daeth yno gynulliad hynod gryf a brwdfrydig. Galwyd i'r gadwir y Cynghorydd F. Shail, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, ac eglurwyd na allai'r ddau Aelod Seneddol, y Mri. D. R. Grenfell a Percy Morris, fod yn bresennol Anerchwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards a'r Athro Ernest Hughes. Pwysleisiodd Syr Ifan mai ar dir egwyddorion addysgol cydnabyddedig yr hawlid Ysgol o'r fath, er mwyn dysgu plentyn drwy gyfrwng iaith yr aelwyd, a sylfaenu'r

addysg ar iaith a diwylliant ei genedl. Hyfryd oedd ei glywed yn adrodd am blant Ysgolion Cynradd Aberystwyth a Llanelli a safasai arholiad i wahanol Ysgolion Gramadeg, na fethodd yr un ohonynt, a'u bod o ran eu Saesneg yn gyfsgwydd â phlant unrhyw ysgol arall.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg, M. L. J. Drew, y trefniadau ar gyfer y Lonlas. Byddai'r plant yno hyd 11 oed, a chychwynnid gyda'r rhai o 5 i 8 oed (ac ychydig fisoedd hŷn). Gyda phlant o aelwydydd Cymraeg y dechreuidd gan y byddai cymysgedd iaith yn anfantais i wythnosau cyntaf yr ysgol. (sibrydir bod rhai plant o gartrefi di-Gymraeg wedi gofyn am gael eu derbyn yno; diau y darperir ar eu cyfer hwy yn nes ymlaen). Am blant o dan 5 oed, darperir dosbarth Plant-Mân (Nursery) iddynt hwy os bydd angen. Dysgir Saesneg, wrth gwr, ond ei dysgu drwy foddion gwyddonol megis ag y gwneid gyda phob ail iaith. Am 9.30 y bore yr agorai'r Ysgol, er mwyn bod yn hollol ar wahân i'r adran Saesneg a ddechreuai'r dydd am 9. Llogwyd tri bws i gludo'r plant: - (1) Oystermouth, Brynmill, St. Helen's Road, Plasmarl, Treforus; (3) Townhill, Mwyhill,

## PLAC I GOFIO GWYROSYDD

Ganol mis Mawrth, cafodd plac ei ddadorchuddio ar dafarn y King's Head, Treboeth (isod), i gofio'r bardd Gwyrosydd. Bu Gwyrosydd (Daniel James) farw gan mlynedd yn ôl, ym mis Mawrth 1920.

Er mai 'Calon Lân 'yw'r emyn neu'r gân sy'n gysylltiedig ag e, ysgrifennodd nifer helaeth o gerddi. Mae rhai'n ymwneud â'r gymdeithas leol, nifer yn gerddi moeswersol, ac mae llawer o'i gerddi'n rhai a gyfansoddodd i gyfeillion.

Pam y King's Head? Yno byddai gan Gwyrosydd gadair iddo'i hun, ac mae'n hawdd ei ddychmygu'n mwynhau'r gwmniaeth yno, a'r edmygedd ohono'n helaeth.

Roedd yn aelod yng nghapel Mynyddbach, a byddai'n gweithio fel pwdler yng ngwaith



haearn Treforys ar ôl colli ei dad yn ifanc. Gweithiodd wedyn yng ngwaith alcarn Glandwr. Er na chafodd fawr addysg,

datblygodd ei allu barddol yn Ysgol Farddol Dafydd Morgannwg, a defnyddiodd yr enw barddol Dafydd Mynydd Bach. Ar awgrym Dafydd Morgannwg newidiodd hyn i Gwyrosydd. Aeth Gwyrosydd i weithio yn Nhredegar, Dowlais a Blaengarw, ac yno, meddir, y >> parhad ar dudalen 4

Pentrechwyth, Cwm; (3) Gors, Fforestfach, Tirdeunaw. (gwlier y wasg leol am fanylion pellach). Diolchodd y Dr. Henry Lewis a'r Parch T. Lloyd Evans i'r Maer a'r holl siaradwyr, a chanwyd "Hen Wlad fy Nhadau" gyda mwy o ystyr nag arfer.

Medi 5. Dyna ddiwrnod yr agor, a gwahoddwyd Syr Ifan ab Owen Edwards i ddod yno. Bellach dibynna arnom ni rieni i anfon ein plant yno. Pob bendith a llwyddiant i'r Ysgolfeistres, Miss D. M. Evans, a'r rhai a ddaw i'w chynorthwyo. Ac am y plant

O gael iddynt ysgol addas – Gymraeg  
Y mae'r iaith mewn urddas,  
Hi yw iaith eu cymdeithas, -  
O! Lawen lu y Lon-las

cyfansoddodd Galon Lân, ac yna bu yn Aberpennar am ugain mlynedd. Byddai'n cynnal dosbarthiadau gramadeg Cymraeg yn ogystal â chyfnasoddi cerddi.

Er gwaetha'i hoffter o'r dafarn, cyfansoddodd yr englyn yma iddi. Mae'n siŵr bod ei dafod yn ei foch:

### Y Dafarn

Teml duw'r blys a'i wael faelfan –  
yw'r dafarn

Er deifio rhin eirlan,  
Ffwrn y diafol, ffordd uffern dân.  
Ac o'i dwll – cadw allan.

Roedd sosialaeth yn newydd iddo, ac er bod ganddo gerdd yn gweld bod angen i gyfalafiaeth a sosialaeth gymodi, roedd yn gweld anghyfiawnderau'r drefn:

### Y LLEIDR DAFAD A LLEIDR MYNYDD

I balas ger y Mynydd Du  
I fyw daeth rhyw lordyn,  
I'r hwn (trwy rinwedd ei famgu  
Fu'n fwy na ffrynd i rywun)  
Y rhoddwyd brasder tref a llan,  
A byd helaethwych beunydd,  
A, p'awn heb gyffro byth o'r fan,  
Lladradodd hwn y mynydd.

Y gosb a ga'dd *my lord* am ddwyn  
Y mynydd oedd – dedwyddwch;  
Y werin ddall, mewn natur fwyn,  
A'i gwnaeth yn Ynad Heddwch;  
Ac ar y fainc ni fu erioed  
Dynerach (?) un i dlodion.  
A ddalient bryfyn gwyllt o'r coed,  
Neu frithyll bach mewn afon.

Lafurwr tlawd, - gwyn—gwyn dy  
fyd  
Mewn tlodi, os yn onest;  
Mae cario teulu trwm trwy'r byd,  
A thalu'r ffordd, yn orchest;  
Ond os lladrata fyth fydd raid  
I ti, ryw bryd neu gilydd,  
Paid byth a dwyn y ddafad, – paid,  
Gofala fyn'd a'r mynydd!

Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Celt*, 18  
Tachwedd 1887

## Cyhoeddi rhestr fer gwobrau llyfrau Tir na n-Og 2020

Mae llyfrau sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pynciau mawr sy'n poeni plant a phobl ifanc ymhlith y cyfrolau ar restr fer Gwobrau Tir na n-Og 2020 a gyhoeddwyd ddydd Gwener 27 Mawrth.



Mae'r rhestr fer o lyfrau Cymraeg yn y categori uwchradd yn ymdrin ag iechyd meddwl, anhwylderau bwyta a mewnfudo tra bod y categori cynradd yn cynnwys llyfrau stori am oddefgarwch, materoliaeth mewn cymdeithas a hanes menywod ysbrydoledig o Gymru.

Straeon wedi'u lleoli ar hyd arfordir a mynyddoedd Cymru am dreigiau, chwedloniaeth, hud a lledrith sy'n cael sylw yn y rhestr fer ar gyfer llyfrau Saesneg.

Dathlu gwaith awduron a darlunwyr a gyhoeddwyd yn ystod 2019 y mae Gwobrau Tir na n-Og 2020, sy'n cael eu trefnu gan Gyngor Llyfrau Cymru a'u noddi gan CILIP Cymru (sef cymdeithas llyfrgellwyr a gweithwyr gwybodaeth Cymru).

Mae tri phrif gategori: llyfrau Cymraeg ar gyfer plant oedran cynradd, llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran uwchradd, a llyfrau Saesneg ac iddynt gefndir Cymreig dilys ar gyfer oedran cynradd neu uwchradd.

### Rhestr Fer Gymraeg (Cynradd)

· [Y Ddinas Uchel](#) – Huw Aaron (Atebol 2019). Mae Petra'n byw mewn dinas o dyrau a phawb yn treulio pob dydd yn eu codi'n uwch ac yn uwch. Llyfr stori-a-llun am fateroliaeth cymdeithas gyda neges gadarnhaol wedi ei chyfleu mewn ffordd dyner, lawn hiwmor.

[Genod Gwych a Merched Medrus](#) – Medd Jones-Jackson (Y Lolfa 2019). Llyfr lliwgar am 14 o fenywod ysbrydoledig o bob rhan o Gymru gan gynnwys Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn a Hazel Gomez. Llyfr llawn hwyl, ffeithiau, posau a gweithgareddau.

[Pobol Drws Nesaf](#) – Manon Steffan Ros a Jac Jones (Y Lolfa 2019). Llyfr stori-a-llun sy'n ein hannog i beidio â beirniadu rhywun sy'n ymddwyn ac yn edrych yn wahanol i ni, ac yn dangos bod rhaid parchu pawb.

### Rhestr Fer Gymraeg (Uwchradd)

[Byw yn fy Nghroen](#) – Gol. Sioned Erin Hughes (Y Lolfa 2019).

Profiadau dirdynnol deuddeg o bobl ifanc sydd wedi gorfod brwydro gyda salwch a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys afiechydon meddyliol a chorfforol fel cancr, nam ar y golwg, OCD, iselder a gorbryder.

[Tom](#) – Cynan Llwyd (Y Lolfa 2019). Nofel i oedolion ifanc am Tom, bachgen 15 oed sy'n byw mewn fflat gyda'i fam ac yn gyfeillgar gyda chymydog 81 oed. Nofel ddirdynnol sy'n ymdrin â bwlio, gwrthdaro, mewnfudwyr, trais a salwch.

[Madi](#) – Dewi Wyn Williams (Atebol 2019). Stori gref am ferch yn ei harddegau sy'n byw gydag anorecsia a bwlimia ac sy'n ceisio cuddio'r cyflwr.

**Caiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi ym mis Mai 2020 ac mae manylion pellach am deitlau'r rhestr fer i'w cael ar wefan llyfrau [gwailes.com](http://gwailes.com).**

